24 Mai 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Datganiad Cydymffurfiaeth 2019

Mae'r llythyr hwn yn pennu'r broses ar gyfer cyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth blynyddol ar gyfer 2019 i Cymwysterau Cymru ac mae'n amlinellu ein llinellau ymholi ar gyfer eleni.

Dylai fod gennych fanylion mewngofnodi diogel eisoes ar gyfer QiW fel y gallwch gwblhau a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth ar-lein. Os oes angen eich atgoffa o'ch manylion mewngofnodi, cysylltwch â ni yn statementofcompliance@qualificationswales.org.

Dim ond y Swyddog Cyfrifol sydd â'r awdurdod i gymeradwyo a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, gellir gofyn am fanylion mewngofnodi ychwanegol fel y gall cydweithwyr olygu'r datganiad cydymffurfiaeth. Mae manylion mewngofnodi ychwanegol eisoes wedi'u rhoi i'ch cydweithwyr a chwaraeodd rôl sylweddol mewn datganiadau blaenorol. Os bydd angen rhagor o fanylion mewngofnodi, anfonwch enwau llawn a chyfeiriadau e-bost i'r mewnflwch ar gyfer datganiadau cydymffurfiaeth. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddosbarthu manylion mewngofnodi newydd neu negeseuon i'ch atgoffa o'ch cyfrinair o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cais.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn gofyn am dystiolaeth i ategu eich datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer rhai amodau, sef:

E3.1 / E3.2	**Cyhoeddi manyleb cymhwyster**
G1.1 / G1.3	**Gosod yr asesiad**

Darperir manylion llawn am y math o dystiolaeth rydym yn disgwyl ei derbyn i ategu eich datganiad yn y datganiad cydymffurfiaeth ar-lein. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich datganiad cydymffurfiaeth ar gael yn yr adran datganiad cydymffurfiaeth ar ein gwefan a thrwy'r ddolen 'Canllawiau' yn QiW. Yma, gallwch weld

y fideo canllaw i ddefnyddwyr a'n Cwestiynau Cyffredin a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Rydym hefyd yn annog cyrff dyfarnu i gyfeirio at eu neges e-bost a oedd yn cau datganiadau cydymffurfiaeth 2018 lle y gwnaethom amlinellu arfer da a phroblemau cyffredin a welwyd yn ystod adolygiad 2018.

Rydym wedi ymgynghori ag Ofqual a CCEA Regulation ac wedi cytuno ar gyfnod cyflwyno cyffredin a fydd yn darparu cysondeb i gyrff dyfarnu. Gallwch gael mynediad i'ch datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer 2019 drwy adran ddiogel gwefan QiW (www.qiw.cymru) o ddydd Llun 3 Mehefin. Rhaid i chi gyflwyno eich datganiad blynyddol i ni rhwng **dydd Llun 3 Mehefin a hanner nos ddydd Llun 30 Medi 2019.**

Bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad cychwynnol o gyflwyniadau 2019 rhwng mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019 a bydd yn anelu at gysylltu â phob corff dyfarnu yn dilyn ein hadolygiad erbyn diwedd mis Ionawr 2020.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arnoch ynglŷn â phroses datganiad cydymffurfiaeth 2019, mae croeso i chi gysylltu â ni yn statementofcompliance@qualificationswales.org.

Yn gywir

Denver Davies
Pennaeth Monitro a Chydymffurfio